



C34 yr M4 i'r A48 - Gwelliannau Trafnidiaeth

26 Medi 2019

11am

Depo'r Alpau

Yn Bresennol: Emma Reed – BM
Kyle Phillips – BM
Y Cyngorydd Peter King - BM
Y Cyngorydd Michael Morgan - BM
Hilary Hanmer - CC Pendeulwyn
Abigail Phillips - CC Llanbedr-y-fro
Nick Craddock - CC Llanddunwyd
Will Howells - CC San Siorys gyda Saint-y-brîd
Ian Perry - CC Sain Nicolas gyda Thresimwn (cyrhaeddodd am 11:25am)

	Cofnod	Cam gweithredu
1.	<p>Croeso / Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</p> <p>Agorodd ER y cyfarfod, gwnaethpwyd cyflwyniadau a dywedwyd bod diweddariad ysgrifenedig ar y Project ar gael yn y cyfarfod ar ffurf taflen (atodedig).</p>	
2.	<p>Diweddariad ar Gyfleuster Parcio a Theithio C34</p> <p>Rhoddwyd taflen i bawb yn y cyfarfod o ran yr eitem hon. Diweddariad ar Orsaf Barcffodd gan gynnwys lleoliad a ffeirir posibl ar gyfer gorsaf newydd. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi'i chomisiynu a bydd y Cyngor yn cael adroddiad GRIP 2 yn fuan.</p> <p>Mae ER wedi rhannu'r project hwn yn ddau - un ar gyfer yr orsaf ac un ar y gwelliannau trafndiaeth ffordd. Bydd y grŵp adolygu'n cwrdd yn gyntaf ar gyfer yr orsaf cyn Nadolig 2019 gobeithio.</p> <p>Nodwyd bod Llywodraeth Cymru (LIC) yn ariannu'r astudiaethau. Wrth i'r project symud yn ei flaen, bydd angen i arian ddod o ffynonellau amrywiol.</p> <p>Rhoddwyd diweddariad i IP a gyrhaeddodd am 11:25am. Codwyd materion gan IP nad oeddent yn berthnasol i'r cyfarfod hwn. Dywedwyd PK wrth bawb mai diben y cyfarfod oedd rhoi diweddariad i'r Cyngor Cymuned o ran ein sefyllfa bresennol ond cynigiwyd ei fod yn aros a chael atebion i'w cwestiynau gwahanol.</p>	

	<p><u>Gwelliannau priffordd strategol posibl - o ganlyniad i'r ymgynghoriad.</u></p> <p>Dywedodd ER, o ganlyniad i'r ymgynghoriad, fod comisiwn yn edrych ar welliannau priffordd yn ogystal â seilwaith ffordd newydd i fodloni safonau ffordd mor uchel â phosibl. Felly bydd 3 opsiwn seilwaith ffordd yn fwy na thebyg i gael eu hystyried yn dechnegol gan y Grŵp Adolygu pan fydd yn cwrdd ar ddechrau'r flwyddyn newydd i drafod. Mae'n debygol, yn dilyn y grŵp Adolygu ac unrhyw Adroddiad Craffu/Cabinet, y caiff Ymgynghoriad pellach ei gynnal am 12 wythnos yn y flwyddyn newydd.</p> <p>Nodwyd bod gwaith ychwanegol wedi'i wneud dan y Cam 2+ hwn a fyddai fel arfer yn cael ei wneud ar Gam 3. Gwnaethpwyd hyn gyda chymeradwyaeth y Cabinet ac arian gan LC. Hefyd, disgwyliwyd i waith yn ymwneud ag Aseiad Agweddau Gweledol ar y Tirlun ac arolwg Dronau / arolwg 3D gael ei wneud.</p> <p>Mae chwiliadau tir wedi'u gwneud. Diolchwyd i'r gymuned am ei chymorth.</p> <p>Bu cais gan y Cynghorau Cymuned i sicrhau bod y canlyniadau modelu Traffig yn glir ac yn ddealladwy er mwyn i sylwadau adeiladol a defnyddiol gael eu gwneud arnynt. Yn benodol, mae angen i'r modelu fod mewn termau plaen fel y mae pobl yn ei ddeall. Yn y digwyddiadau ymgynghori diwethaf, roedd y Grŵp yn teimlo nad oedd y Swyddogion yn siarad mewn ffordd hygyrch. Mae angen i'r wybodaeth fod yn gywir ac yn fwy tryloyw neu bydd yn ddiystyr.</p>	<p>ER</p>
<p>3.</p>	<p>Diweddariadau ar welliannau trafndiaeth C34 i Sycamore Cross</p> <p>Cyfeiriwyd at y daflen ddiweddar a gylochredwyd.</p> <p>Bu trafodaeth am y cynghorau cymuned yn ceisio cael gwybod gan LC, yn rhan o Gam 2, sut cafodd y ffordd hon ei dewis heb opsiynau strategol eraill yn cael eu cyflwyno a pwy a wnaeth y penderfyniad hwn. Mae trafodaeth ynghylch astudiaethau pwynt pinsio'r M4 ar y gweill hefyd.</p>	
<p>4.</p>	<p>Y Camau Nesaf</p> <p>Y Grŵp Adolygu GRIP i gwrdd cyn y Nadolig, gobeithio.</p> <p>Bu cais fod CNC yn cael lle ar y Grŵp Adolygu fel cynrychiolydd amgylcheddol allanol i'r Cyngor. Dywedwyd wrth y Cynghorau Cymuned fod CNC yn rhan hanfodol o'r gwaith hydrolegol gan gynnwys modelu sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dywedodd ER y bydd yn ystyried y cais hwn ymhellach.</p>	<p>ER</p> <p>ER</p>
<p>5.</p>	<p>Unrhyw Fusnes Arall gan Gynghorau Cymuned</p> <p>Dywedodd cynrychiolydd cyngor cymuned wrth bawb fod rhai tai mewn perygl sylweddol (o gael eu dymchwel) a gofynnodd a oes unrhyw beth y gall y perchennogion yr eiddo dan sylw ei wneud fel nad ydynt mewn limbo llwyr? Cyfeiriodd ER at y cyngor ysgrifenedig a gyflwynwyd y flaenorol ac ymrwymodd i adolygu'r cyngor hwn.</p>	<p>ER</p>